National Audit Office

ADRODDIAD

# Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2022-23

Cyllid a Thollau EF

SESIWN 2023-24
19 IONAWR 2024
HC 389

Ni yw corff gwarchod gwariant cyhoeddus annibynnol y DU.

Rydym yn cefnogi Senedd y DU wrth ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy ein harchwiliadau o ansawdd uchel.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn craffu ar wariant cyhoeddus ar gyfer Senedd y DU ac mae'n annibynnol ar lywodraeth a'r gwasanaeth sifil. Rydym yn helpu Senedd y DU i ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn defnyddio ein dealltwriaeth i helpu pobl sy'n rheoli cyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Gareth Davies, yn un o Swyddogion Tŷ'r Cyffredin ac yn arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Rydym yn archwilio cyfrifon ariannol adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar werth am arian y ffordd y mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario.

Yn 2022, arweiniodd gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol at effaith ariannol gadarnhaol drwy gostau is, gwasanaethau a ddarperir yn well, neu fuddiannau eraill i ddinasyddion gwerth £572 miliwn.

National Audit Office

# Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2022-23

## Cyllid a Thollau EF

**Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin
i gael ei brintio ar 17 Ionawr 2024

Paratowyd yr adroddiad hwn o dan Adran 6 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 i'w gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 9 o'r Ddeddf

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 116K o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014

**Gareth Davies**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**

**21 Rhagfyr 2023**

HC 389 | £10.00

Mae'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon yn ddarostyngedig i hawlfraint y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Gellir copïo neu atgynhyrchu'r deunydd at ddibenion anfasnachol yn unig, sef atgenhedlu ar gyfer ymchwil, astudiaeth breifat neu gylchrediad mewnol cyfyngedig o fewn sefydliad at ddibenion adolygu.

Mae copïo at ddibenion anfasnachol yn ddarostyngedig i gydnabyddiaeth ddigonol, wedi'i hatgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei defnyddio mewn cyd-destun cararweiniol, gyda'r deunydd. I atgynhyrchu deunydd hawlfraint NAO am unrhyw ddefnydd arall, rhaid i chi gysylltu â copyright@nao.org.uk. Dywedwch wrthym pwy ydych chi, y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli (os o gwbl) a sut a pham rydych chi'n dymuno defnyddio ein deunydd. Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt llawn: enw, cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost.

Sylwer na ellir atgynhyrchu'r deunydd sy'n ymddangos yn y ddogfen hon er budd masnachol heb ganiatâd penodol ac uniongyrchol yr NAO a bod yr NAO yn cadw'r hawl i ddilyn achosion torri hawlfraint yn erbyn unigolion neu gwmnïau sy'n atgynhyrchu deunydd ar gyfer ennill masnachol heb ein caniatâd.

Roedd dolenni i wefannau allanol yn ddilys ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Nid yw'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am ddilysrwydd y dolenni yn y dyfodol.

**012127 01/24 NAO**

© Swyddfa Archwilio Genedlaethol 2024

# Cynnwys


**Ffeithiau allweddol** 4

**Crynodeb** 5

**Rhan Un**
Treth incwm a gesglir oddi wrth drethdalwyr Cymreig 11

**Rhan Dau**
Gweinyddu treth incwm Cymru 18

**Rhan Tri**
Costau 31

**Atodiad Un**
Ein sail dystiolaeth 32


Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn www.nao.org.uk

Os oes angen fersiwn o'r adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen am resymau hygyrchedd, neu unrhyw un o'r ffigurau mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar enquiries@nao.org.uk


Roedd tîm astudiaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnwys:

Rebecca Mavin, Andy Serlin a Jordan Stokes, o dan gyfarwyddyd Darren Stewart. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn www.nao.org.uk



Am ragor o wybodaeth am y Swyddfa Archwilio Genedlaethol cysylltwch â:

National Audit Office
Press Office
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

020 7798 7400
www.nao.org.uk
@NAOorguk

# Ffeithiau allweddol

**1.4mn**
Trethdalwyr Cymreig yn 2021-22

**£2.4bn**
Refeniw treth incwm Cymru yn 2021-22

**£2.6bn**
Amcangyfrif Cyllid a Thollau EF o refeniw treth incwm Cymru yn 2022-23

**£0.4 miliwn** costau gweinyddu treth incwm Cymru yn 2022-23

# Crynodeb

## Cyflwyniad

**1** Rhoddodd Deddf Cymru 2014 bŵer llawn i Senedd Cymru bennu'r cyfraddau (ac eithrio'r lwfans personol) a delir gan drethdalwyr Cymreig ar incwm nad yw'n gynilion na difidendau o 6 Ebrill 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr holl refeniw treth incwm a gynhyrchir o incwm nad yw'n gynilion na difidendau o dan bolisi treth incwm Cymru.

**2** Ers mis Ebrill 2019, mae Llywodraeth y DU wedi gostwng cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yn y DU 10 pwynt canrannol ar gyfer trethdalwyr Cymreig ac ers hynny mae gan y Senedd y pŵer i gymhwyso cyfraddau Cymru hefyd. Ar gyfer pob band treth, y gyfradd treth incwm a delir yw swm cyfradd y DU a ostyngwyd a chyfradd Cymru a bennwyd ar gyfer y flwyddyn (**Ffigur 1** drosodd). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar gyfer 2022-23, pennodd y Senedd gyfraddau treth incwm Cymru ar 10% ym mhob band, a oedd yn golygu bod cyfanswm y cyfraddau ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru yn cyfateb i gyfraddau'r DU, sef 20% (cyfradd sylfaenol), 40% (cyfradd uwch) a 45% (cyfradd ychwanegol).

### Rolau a chyfrifoldebau


**3** Trysorlys EF sy'n gyfrifol am dalu treth incwm Cymru i Lywodraeth Cymru. Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn gweinyddu ac yn casglu treth incwm Cymru fel rhan o system dreth y DU. Mae CThEF yn nodi trethdalwyr sy'n byw yng Nghymru drwy roi 'fflag' ar ei systemau sy'n nodi eu bod yn ddarostyngedig i gyfraddau treth incwm Cymru. Yn ôl cyfrifiad CThEF, roedd 1.4 miliwn o drethdalwyrCymreig yn 2021-22.

**4** Yn dilyn diwedd pob blwyddyn dreth, mae CThEF yn llunio amcangyfrif dros dro o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn honno. Cyfrifir yr alldro terfynol yn y flwyddyn ganlynol pan fydd CThEF wedi cael mwy o wybodaeth gan drethdalwyr a chyflogwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r alldro terfynol ar gyfer 2021-22 a'r amcangyfrif dros dro ar gyfer 2022-23. Mae CThEF yn disgwyl cyhoeddi'r alldro ar gyfer 2022-23 yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24.

## Ffigur 1

Cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23

**Mae cyfraddau treth incwm y DU yn cael eu gostwng 10 ceiniog fesul punt i bob diben a'u disodli gan gyfraddau treth incwm Cymru**




| | Cyfradd sylfaenol | Cyfradd uwch | Cyfradd ychwanegol |
|---|---|---|---|
| Cyfradd treth incwm Cymru (ceiniog) | 10 | 10 | 10 |
| Cyfradd treth incwm y DU wedi'i gostwng 10 ceiniog fesul punt (ceiniog) | 10 | 30 | 35 |
| **Cyfanswm** | **20** | **40** | **45** |

**Nodiadau**

1 Ar gyfer pob band treth (sylfaenol, uwch ac ychwanegol), mae Llywodraeth y DU yn lleihau swm y dreth y bydd yn ei chasglu 10 ceiniog fesul punt ac mae'r Senedd yn pennu cyfradd treth incwm Cymru i'w hychwanegu at gyfraddau treth y DU.

2 Ar gyfer 2022-23, mae'r Senedd yn pennu pob un o gyfraddau treth incwm Cymru ar 10 ceiniog, sy'n golygu bod trethdalwyr Cymreig yn talu swm sy'n cyfateb o ran treth i gyfradd y DU ar gyfer pob band treth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata gan Lywodraeth Cymru

**5** Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- digonolrwydd rheolau a gweithdrefnau CThEF, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir gan y darpariaethau hynny ei hasesu a'i chasglu'n briodol;
- a yw CThEF yn cydymffurfio â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif gan CThEF sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru;
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir i CThEF fel treuliau gweinyddol.

**6** Mae'r adroddiad hwn yn asesu'r canlynol:

- cyfrifiad CThEF o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22, yr 'alldro', a sicrwydd ynghylch cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif (Rhan Un);
- amcangyfrif CThEF o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23 a'n barn am y fethodoleg amcangyfrif (Rhan Un);
- rheolaethau allweddol a weithredwyd gan CThEF wrth asesu a chasglu treth incwm (Rhan Dau);
- y dull a fabwysiadwyd gan CThEF wrth asesu a lliniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion treth Cymru (Rhan Dau);
- cost gweinyddu treth incwm Cymru. Rydym yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb a thegwch y symiau hyn yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru (Rhan Tri).

**7** Mae Atodiad Un yn nodi ein sail dystiolaeth archwilio.

## Canfyddiadau allweddol

### Alldro terfynol treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22 a'r amcangyfrif ar gyfer 2022-23

8 **Yn ôl cyfrifiad CThEF, yr alldro terfynol ar gyfer 2021-22 oedd £2,384 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli symiau a gasglwyd o dan bolisi treth incwm Cymru.** Amcangyfrif CThEF o dreth incwm Cymru ar gyfer 2021-22, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022, oedd £2,356 miliwn, sy'n golygu bod yr alldro gwirioneddol £28 miliwn (1.2%) yn uwch nag amcangyfrif gwreiddiol CThEF. Gwnaethom archwilio methodoleg CThEF ar gyfer cyfrifo'r alldro gwirioneddol, sydd o reidrwydd yn cynnwys rhai o'r meysydd amcangyfrifon sy'n weddill, er enghraifft lle nad oedd CThEF wedi derbyn ffurflenni threthdalwyr eto. Yn y meysydd hyn, rydym wedi gwerthuso'r sail dros amcangyfrif CThEF gan gynnwys y tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw, rydym wedi dod i'r casgliad fod alldro refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22 wedi'i ddatgan yn deg (paragraffau 1.2 i 1.15).

9 **Mae CThEF wedi amcangyfrif mai £2,589 miliwn yw refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23.** Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £205 miliwn (8.6%) o gymharu ag alldro 2021-22. Cynyddodd treth incwm ar gyfer y DU gyfan 8.9% yn 2022-23. Mae'r cynnydd yn refeniw treth incwm y DU a refeniw treth incwm amcangyfrifedig Cymru yn adlewyrchu cynnydd chwyddiannol mewn enillion a'r penderfyniad i rewi bandiau a throthwyon treth incwm. Cynyddodd hyn faint y boblogaeth o drethdalwyr a symudodd rhai trethdalwyr i ddosbarthiadau treth uwch. Mae CThEF yn disgwyl cyfrifo'r alldro treth incwm terfynol ar gyfer 2022-23 y gellir ei briodoli i Gymru yn 2024. Dim ond at ddibenion cyflwyno adroddiadau ariannol yn ei gyfrifon blynyddol y mae'r amcangyfrif a lunnir gan CThEF, ac nid yw'n effeithio ar swm y refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn yn y pen draw (paragraffau 1.16 i 1.19).

10 **Mae ffactorau allanol wedi cynyddu lefel yr ansicrwydd yn amcangyfrif CThEF o refeniw treth incwm Cymru yn 2022-23.** Nododd CThEF mai'r brif ffynhonnell o ansicrwydd yw pa mor gywir y gall amcangyfrif cyfran Cymru o atebolrwydd treth incwm y DU, yn enwedig am fod ei amcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn dibynnu ar ddata arolygon o 2019-20. Mae CThEF wedi tynnu sylw at gyfraddau llog a chwyddiant uchel, twf cyflogau a phrisiau ynni uchel ac anwadal fel ffactorau allanol a greodd fwy o ansicrwydd yn 2022-23. Ystyriwn fod y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan CThEF i amcangyfrif effaith y meysydd ansicrwydd hyn ar refeniw treth incwm Cymru yn 2022-23 yn rhesymol (paragraff 1.20).

## Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru

11 **Mae gan CThEF reolau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau yr asesir ac y cesglir treth incwm Cymru yn briodol ac mae'n cydymffurfio â'r rheolau hynny.** Mae ein gwaith ar faterion sy'n ymwneud â threth incwm Cymru yn adeiladu ar ein hasesiad ehangach o reolau a gweithdrefnau CThEF, a gwblheir fel rhan o'n harchwiliad blynyddol o CThEF. Fel rhan o'r archwiliad hwnnw, daethom i'r casgliad bod CThEF wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu refeniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a bod y rheoliadau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu gweithredu'n briodol (paragraffau 2.2 i 2.14).

12 **Yr her allweddol i CThEF o hyd wrth weinyddu'r system yw cynnal cofnod cywir a chyflawn o gyfeiriadau trethdalwyr Cymreig.** Mae CThEF yn dibynnu ar drethdalwyr yn ei hysbysu am newid cyfeiriad, er nad oes gofyniad cyfreithiol iddynt wneud hynny. Gwelsom fod gostyngiad wedi bod yn nifer y codau post yng Nghymru y nododd gwaith glanhau cyfeiriadau CThEF eu bod ar goll neu'n annilys, gyda 4% (52,319) o'r boblogaeth gyffredinol o drethdalwyr yn cael eu cofnodi fel rhai a oedd ar goll neu'n annilys yn ei sgan ar gyfer 2022-23 a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022. Roedd y ffigur hwn yn is na'r 6% (81,716) a gofnodwyd ym mis Mehefin 2021. Mae CThEF wedi ymchwilio i'r achosion hynny ag incwm trethadwy yn ystod y flwyddyn ac wedi'u diweddaru (paragraffau 2.15 i 2.24).

13 **Mae asesiadau CThEF yn parhau i nodi bod y risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â threth incwm Cymru yn isel am nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng cyfraddau treth Cymru a chyfraddau treth yng ngweddill y DU.** Yn 2022-23, lluniodd CThEF Ddarlun Strategol o Risg ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru. Ym marn CThEF, y prif feysydd o risg i dreth incwm Cymru yw risgiau i gydymffurfiaeth y mae'n eu hasesu ar lefel y DU gyfan. Nid yw CThEF yn nodi unrhyw risgiau yn y Darlun Strategol hwn o Risg sy'n benodol i Gymru am fod CThEF yn asesu bod risgiau i gydymffurfiaeth yng Nghymru yn gyson â gweddill y DU (paragraffau 2.26 a 2.27).

14 **Gwnaeth CThEF gyfrifo enillion cydymffurfio o £120 miliwn yn ymwneud â Chymru ar gyfer 2021-22, y data diweddaraf sydd ar gael.** Mae CThEF yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio: ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae wedi'i gynhyrchu, a'r colledion refeniw y mae wedi'u hatal. Amcangyfrifodd CThEF mai cyfran Cymru o golledion net o risgiau i gydymffurfiaeth ar gyfer 2020-21, sef y data mwyaf diweddar a oedd ar gael, oedd £390 miliwn. Mae CThEF yn cyfrifo'r ffigurau hyn fel cyfran o ffigur cyfatebol y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru i feintioli'r risgiau. Nid yw CThEF yn ystyried amrywiadau daearyddol yn lefel y risgiau i gydymffurfiaeth, na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU nac yn adrodd arnynt (paragraff 2.31).

15 **Ychydig iawn o ddata perfformiad sydd gan CThEF ar ei weithgareddau cydymffurfio yng Nghymru.** Yn wahanol i'w system treth incwm, sy'n nodi trigolion Cymreig, ni all system gydymffurfiaeth CThEF nodi pobl sy'n byw yng Nghymru yn hawdd. Felly, ni all CThEF olrhain a monitro gweithgarwch cydymffurfiaeth yng Nghymru yn hawdd ac mae hyn yn effeithio ar ei allu i gasglu data perfformiad ynghylch y graddau y ceir diffyg cydymffurfiaeth yng Nghymru (paragraff 2.29).

16 **Bu cynnydd yng ngweithgareddau cydymffurfiaeth CThEF yn 2022-23 ond methodd â chyflawni ei darged ar gyfer enillion cydymffurfio.** Ledled y DU, roedd nifer yr achosion yn ymwneud â chydymffurfiaeth a agorwyd gan CThEF yn 2022-23 yn fwy nag yn 2021-22 ond roeddent 17% yn llai nag yn 2019-20 cyn y pandemig. Caeodd 20% yn llai o achosion nag yn 2019-20. Dywed CThEF fod hyn adlewyrchu'n rhannol ei strategaeth i ganolbwyntio fwyfwy ar ymdrechion yn uwch i fyny i sicrhau bod trethdalwyr yn cydymffurfio yn y lle cyntaf a blaenoriaethu achosion mwy o faint ac achosion effaith uwch. Enillion CThEF o'i weithgareddau cydymffurfiaeth â threth ar gyfer y DU gyfan oedd £34.0 biliwn yn 2022-23, sef cynnydd o 10% o gymharu â 2021-22 ac yn uwch na'r cyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf (2018-19 i 2022-23), sef £33.2 biliwn. Fodd bynnag, roedd enillion cydymffurfio yn 2022-23 islaw targed CThEF, sef £36 biliwn. Fel cyfran o gyfanswm y refeniw, parhaodd enillion cydymffurfio ar 4.2% (paragraffau 2.28 i 2.30).

17 **Mae dyledion treth y DU wedi cynyddu ers 2022 ac maent yn dal i fod yn fwy na lefelau cyn y pandemig.** Mae ffactorau allanol sy'n effeithio ar allu trethdalwyr i dalu'r dreth sy'n ddyledus ganddynt, gan gynnwys pwysau chwyddiannol presennol a chynnydd mewn costau byw, yn effeithio ar falans dyledion CThEF. Ar 31 Mawrth 2023, cyfanswm y dyledion treth ar gyfer y DU oedd £43.9 biliwn, 11.9% (£4.7 biliwn) yn uwch na lefel y ddyled a gofnodwyd gan CThEF ar 31 Mawrth 2022. Gwnaeth dyledion treth fwy na threblu yn ystod chwe mis cyntaf 2020-21 oherwydd effaith economaidd ehangach pandemig COVID-19 a phenderfyniad CThEF i atal y rhan fwyaf o'i weithgarwch casglu dyledion. Mae'n dal i fod yn uwch nag ydoedd yn ystod y pum mlynedd cyn y pandemig pan oedd dyledion treth tua £14 biliwn ar gyfartaledd. Mae gan CThEF strategaeth newydd i leihau dyledion treth yn yr hirdymor ond roedd yn disgwyl iddynt barhau'n uchel yn ystod 2023-24. Nid yw CThEF yn llunio amcangyfrif o gyfanswm y dyledion treth incwm y gellir eu priodoli i drethdalwyr Cymreig (paragraffau 2.33 a 2.34).

## Costau

18 **Yn 2022-23, aeth CThEF i gostau o £0.4 miliwn wrth weinyddu treth incwm Cymru ac ailgododd dâl am hynny ar Lywodraeth Cymru.** Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEF yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, rydym wedi dod i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru (paragraffau 3.4 a 3.5).

# Rhan Un

## Treth incwm a gesglir oddi wrth drethdalwyr Cymreig

**1.1** Mae Rhan Un o'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfrifiad Cyllid a Thollau EF (CThEF) o'r alldro refeniw terfynol ar gyfer treth incwm Cymru yn 2021-22 a'i amcangyfrif dros dro o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23. Mae hyn yn cynnwys:

- ein hasesiad o gyfrifiad CThEF o alldro treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22, yn cynnwys cyfyngiadau data a dyfarniadau CThEF mewn meysydd lle y ceir ansicrwydd;
- ein barn ar amcangyfrif CThEF o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23 a nodweddion a chyfyngiadau methodoleg CThEF.

### Alldro terfynol treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22

**1.2** Cyfrifiad CThEF o'r alldro ar gyfer refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22 yw £2,384 miliwn (**Ffigur 2** drosodd). Mae CThEF yn defnyddio sawl elfen i gyfrifo'r ffigur alldro terfynol, ac mae'n cyfuno'r elfennau hynny er mwyn nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22. Caiff pob elfen ei chyfrifo gan ddefnyddio un ffynhonnell neu fwy er mwyn nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru. Amcangyfrif blaenorol CThEF o dreth incwm Cymru ar gyfer 2021-22, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, oedd £2,356 miliwn, sy'n golygu bod yr alldro gwirioneddol £28 miliwn (1.2%) yn uwch nag amcangyfrif gwreiddiol CThEF. Mae hyn yn cymharu â gwahaniaeth o 1.8% yn 2020-21 ac 1.6% yn 2019-20.

**1.3** Seiliodd CThEF y cyfrifiad alldro yn bennaf ar atebolrwydd treth sefydledig, rhyw £2,441 miliwn, lle mae CThEF wedi nodi'r dreth sy'n ddyledus ac wedi cysoni cofnodion trethdalwyr yn llawn. Mae CThEF yn cyfrifo'r atebolrwydd sefydledig o'r data ar atebolrwydd treth terfynol yn y systemau treth incwm Talu Wrth Ennill (TWE) a Hunanasesu.

## Ffigur 2

Cyfrifiad Cyllid a Thollau EF (CThEF) o alldro refeniw treth incwm Cymru 2021-22

**Mae'r mwyafrif o'r alldro yn seiliedig ar atebolrwydd sefydledig ac mae cyfran fach wedi'i hamcangyfrif gan CThEF**

| | 2021-22 | | | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|
| | Symiau wedi'u seilio ar atebolrwydd trethdalwyr sefydledig | Addasiadau a symiau wedi'u seilio ar atebolrwydd amcangyfrifedig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | (£mn) | (£mn) | (£mn) | (£mn) |
| Atebolrwydd sefydledig Hunanasesu[1] | 759 | (11) | 749 | 674 |
| Atebolrwydd sefydledig Talu Wrth Ennill (TWE)[1] | 1,682 | (8) | 1,674 | 1,506 |
| Atebolrwydd pellach amcangyfrifedig[2] | – | 54 | 54 | 50 |
| Didyniadau o refeniw[3] | – | (93) | (93) | (90) |
| **Cyfanswm** | **2,441** | **(57)** | **2,384** | **2,140** |

**Nodiadau**

1 Mae atebolrwydd treth sefydledig Hunanasesu a TWE wedi'u seilio'n bennaf ar ddata atebolrwydd treth a ddelir gan CThEF, er bod rhai symiau wedi'u seilio ar amcangyfrifon hefyd.

2 Dyma amcangyfrif CThEF o atebolrwydd treth TWE nad yw wedi'i gadarnhau eto a lle y disgwylir atebolrwydd treth o ffurflenni Hunanasesu neu weithgarwch cydymffurfio yn y dyfodol.

3 Mae didyniadau o refeniw yn cynnwys rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn a Chymorth Rhodd.

4 Mae rhifau a ddangosir mewn cromfachau yn rhifau negyddol.

5 Nid yw'r symiau yn gwneud cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata gan Cyllid a Thollau EF

**1.4** Mae CThEF yn gwneud addasiadau neu amcangyfrifon lle nad yw wedi cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus eto, neu lle mae'n rhaid iddo amcangyfrif cyfran Cymru o symiau na ellir eu casglu neu ryddhad treth. Y gostyngiad mewn alldro treth incwm Cymru a ddeilliodd o'r addasiadau hyn oedd £57 miliwn (net) (Ffigur 2). Mewn rhai rhannau o'r cyfrifiad, nid oes gan CThEF ddata digon manwl ar gael i nodi atebolrwydd treth incwm, rhyddhad treth nac addasiadau eraill sy'n ymwneud â threthdalwyr unigol. Aeth CThEF ati i amcangyfrif cyfran Cymru o'r symiau hyn drwy ddefnyddio data eraill a oedd ar gael, fel data ar y boblogaeth ac incwm, er mwyn nodi'r cydbwysedd rhwng Cymru a gweddill y DU.

**1.5** Trafododd CThEF a Llywodraeth Cymru y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo alldro treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22 a chytuno arni yng nghyfarfod Bwrdd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mis Mai 2023. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan CThEF i gyfrifo'r alldro wedi aros yn ddigyfnewid, fwy neu lai, ers y flwyddyn flaenorol.

**1.6** Gwnaethom archwilio'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r alldro, sydd o reidrwydd yn cynnwys rhai o'r meysydd amcangyfrifon sy'n weddill, er enghraifft lle nad oedd ffurflenni threthdalwyr wedi'u derbyn eto. Yn y meysydd hyn, gwnaethom werthuso'r sail dros amcangyfrif CThEF gan gynnwys tybiaethau perthnasol a'r data a oedd ar gael. Daethom i'r casgliad bod alldro refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2021-22 wedi'i ddatgan yn deg. Rydym yn disgrifio'r elfennau allweddol o'r modd y cyfrifwyd yr alldro yn fanylach isod.

## Atebolrwydd sefydledig Hunanasesu

**1.7** Mae'r atebolrwydd sefydledig Hunanasesu o £749 miliwn yn cynrychioli'r holl dreth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru gan drethdalwyr Hunanasesu Cymreig yn 2021-22.

**1.8** Mae CThEF yn nodi trethdalwyr Cymreig drwy ddefnyddio ei gyfnod o statws preswylio yng Nghymru yn ei system 'Amgylchedd Cyfrifiadurol ar gyfer Hunanasesu'. Mae'r cyfrifiad o atebolrwydd Hunanasesu yn seiliedig yn bennaf ar gofnodion trethdalwyr Cymreig o'r system Amgylchedd Cyfrifiadurol ar gyfer Hunanasesu (CESA). Mae CThEF wedi gwneud mân addasiadau hefyd er mwyn dosrannu cyfran Cymru o falansau Hunanasesu perthnasol eraill lle nad oes data penodol ar gael.[1]

## Atebolrwydd sefydledig TWE

**1.9** Mae atebolrwydd sefydledig TWE, sef £1,674 miliwn, yn cynrychioli'r holl dreth incwm y gellir ei phriodoli i Gymru gan drethdalwyr TWE Cymreig yn 2021-22.

**1.10** O dan TWE, mae cyflogwyr yn cyflwyno data misol i CThEF ar yr enillion a'r didyniadau treth a wneir ar gyfer eu cyflogeion ac mae CThEF yn cofnodi'r wybodaeth hon ar ei system Gwasanaeth Yswiriant Gwladol a TWE. Mae CThEF yn nodi trethdalwyr Cymreig ar y system drwy ddefnyddio dangosydd preswylio sy'n seiliedig ar wybodaeth am god post y trethdalwr. Mae CThEF yn nodi cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru drwy gael gafael ar gofnodion trethdalwyr Cymreig o'r system Gwasanaeth Yswiriant Gwladol a TWE.

1 Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o £4 miliwn o atebolrwydd ac asesiadau a gofnodwyd â llaw, nad ydynt yn nodi'r ffordd y mae'r atebolrwydd wedi'i rannu rhwng trethi. Mae hefyd yn cynnwys cofnodion sensitif, nad yw CThEF yn eu defnyddio wrth gyfrifo cyfran Cymru o dreth incwm. Didynnodd CThEF swm o £17 miliwn ar gyfer cyfran Cymru o ryddhad treth drwy Hunanasesu.

**1.11** Mae mwyafrif atebolrwydd TWE yn seiliedig ar ddata trethdalwyr Cymreig a geir o systemau CThEF ond mae angen dosrannu elfennau eraill llai o faint hefyd. O'r cyfanswm, mae CThEF yn didynnu cyfran Cymru o ryddhad treth a roddir yn erbyn atebolrwydd TWE. Mae CThEF hefyd yn gwneud addasiad er mwyn dosrannu'r dreth y mae'n ei chasglu gan gyflogwyr o dan gytundebau setlo TWE.[2] Cyfran Cymru a gyfrifwyd gan CThEF ar gyfer 2021-22 oedd £3.2 miliwn. Gan fod atebolrwydd i dalu treth yn cael ei setlo drwy un taliad a wneir gan y cyflogwr, ni chaiff manylion trethdalwyr unigol eu cofnodi ac felly mae CThEF yn dadansoddi cyflwyniadau'r cyflogwr er mwyn pennu cyfran Cymru o refeniw cytundeb setlo ledled y DU.

## Atebolrwydd pellach a amcangyfrifir

**1.12** Caiff y rhan fwyaf o'r atebolrwydd Hunanasesu ar gyfer 2021-22 ei sefydlu cyn cyfrifo'r alldro. Serch hynny, mae CThEF yn gwybod o flynyddoedd blaenorol y bydd atebolrwydd treth Hunanasesu yn parhau i gael ei sefydlu a'i gasglu am hyd at chwe blynedd yn ddiweddarach. Mae hyn oherwydd bod CThEF yn parhau i dderbyn gwybodaeth ychwanegol gan drethdalwyr a thrwy ei weithgarwch cydymffurfio. Mae CThEF yn cyfrifo'r atebolrwydd ychwanegol amcangyfrifedig ar gyfer yr elfennau hyn yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol, a phennodd werth o £54 miliwn iddo yn alldro 2021-22. Gwnaeth CThEF addasiad amcangyfrifedig o £17,855 miliwn mewn perthynas ag atebolrwydd TWE pellach nad oedd wedi'i bennu eto, er enghraifft lle nad oedd cyfansymiau diwedd blwyddyn neu wybodaeth am fuddion mewn da a dderbyniwyd gan y trethdalwr yn hysbys eto. Mae prosesau TG gwell wedi helpu i leihau'r ffigur hwn o £1.4 miliwn yn 2020-21.

## Didyniadau o refeniw

**1.13** Mae CThEF yn gwneud cyfres o ddidyniadau o'r refeniw alldro, gan gydnabod, yn ymarferol, na fydd yn casglu'r holl dreth sy'n ddyledus iddo. Mae'n defnyddio gwybodaeth hanesyddol i gyfrifo'r didyniadau hyn ac yn dosrannu swm ar gyfer trethdalwyr Cymreig.

**1.14** Ni chaiff rhywfaint o atebolrwydd treth incwm TWE a Hunanasesu byth eu setlo gan nad yw cyflogwyr neu drethdalwyr yn talu'r symiau llawn sy'n ddyledus. Mae CThEF yn dadansoddi data hanesyddol ar gyfer y DU gyfan er mwyn nodi patrymau o atebolrwydd heb ei gasglu ac yna yn dosrannu swm sy'n gysylltiedig â threthdalwyr Cymreig. Yn ôl cyfrifiad CThEF, y swm hwn oedd £19 miliwn ar gyfer 2021-22.

2 Mae cytundeb setlo TWE yn caniatáu i gyflogwyr wneud un taliad blynyddol i gwmpasu'r holl dreth sy'n ddyledus ar fân dreuliau neu fuddiannau, neu dreuliau neu fuddiannau afreolaidd neu annichonol, ar gyfer cyflogeion yn y cynllun.

**1.15** Mae CThEF yn gwneud didyniadau pellach ar gyfer cyfraniadau pensiwn a Chymorth Rhodd, y mae rhyddhad treth incwm yn gymwys i'r ddau ohonynt ar gyfradd treth incwm ymylol y trethdalwr. Mae gweinyddwyr y cynllun pensiwn yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEF ar ran aelodau eu cynllun, ac mae elusennau yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan CThEF ar ran eu rhoddwyr. Mae CThEF yn cyfrifo'r ddau ddidyniad drwy ddefnyddio data hanesyddol i amcangyfrif cyfran Cymru o bob rhyddhad treth a hawliwyd ledled y DU. Ar gyfer 2021-22, cyfrifodd CThEF mai'r didyniad ar gyfer Cymorth Rhodd oedd £30 miliwn a'r didyniad ar gyfer cyfraniadau pensiwn oedd £43 miliwn.

## Amcangyfrif treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23

**1.16** Mae CThEF yn amcangyfrif y bydd yn casglu £2,589 miliwn o refeniw treth incwm Cymru mewn perthynas â blwyddyn 2022-23.[3] Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £205 miliwn (8.6%) yn erbyn alldro 2021-22. Bu cynnydd o 8.9% ar gyfer y DU yn gyffredinol. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu cynnydd chwyddiannol mewn enillion, ynghyd â'r penderfyniad i rewi bandiau a throthwyon treth incwm. Cynyddodd hyn faint y boblogaeth o drethdalwyr ac achosodd i rai trethdalwyr symud i ddosbarth treth uwch. Mae CThEF yn disgwyl cyhoeddi'r alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn 2022-23 yn ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24 erbyn mis Gorffennaf 2024. Dim ond at ddibenion cyflwyno adroddiadau ariannol yn ei gyfrifon blynyddol y mae amcangyfrif CThEF, ac nid yw'n effeithio ar swm y refeniw a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn y pen draw.

**1.17** Mae methodoleg CThEF ar gyfer amcangyfrif refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23 yn seiliedig ar ddata trethdalwyr o'i Arolwg o Incwm Personol. O'r flwyddyn 2020-21 roedd y data diweddaraf a oedd ar gael i CThEF pan luniodd yr amcangyfrif, ond asesodd CThEF y byddai'r data hyn yn llai dibynadwy i roi darlun o'r sefyllfa mewn blynyddoedd i ddod o ystyried effaith ystumiol pandemig COVID-19. Yn lle hynny, defnyddiodd data o'r Arolwg o Incwm Personol o 2019-20. Yna, pennodd CThEF gyfran ganrannol Cymru o atebolrwydd treth incwm cyffredinol y DU drwy ddadansoddi'r data mewn model sy'n ailadrodd system treth incwm y DU, sef y Model Treth Personol. Addasodd CThEF y data i adlewyrchu newidiadau demograffig a pholisi y mae'n disgwyl neu'n gwybod iddynt ddigwydd rhwng 2019-20 a 2022-23. Yna cymhwysodd CThEF gyfran Cymru at gyfanswm atebolrwydd treth y DU er mwyn llunio amcangyfrif o refeniw ar gyfer treth incwm Cymru (**Ffigur 3** drosodd).

**1.18** Gwnaeth CThEF addasiad 'calibradu' i'r amcangyfrif o refeniw Cymru oherwydd, yn hanesyddol, mae ei fethodoleg wedi arwain at alldro amcangyfrifedig uwch na'r alldro gwirioneddol. Gwnaeth CThEF yr addasiad hwn drwy gymharu alldro 2021-22 ag amcangyfrif diwygiedig o refeniw 2021-22 gan ddefnyddio'r un fethodoleg ond gyda'r tybiaethau a'r data diweddaraf. Yn sgil yr addasiad calibradu, gwelwyd gostyngiad o £63 miliwn (2.4%) yn yr amcangyfrif dros dro ar gyfer 2022-23 (gweler Ffigur 3 drosodd).

3 Cyllid a Thollau EF, *Annual Report and Accounts 2022-23*, HC 1466, Gorffennaf 2023.

## Ffigur 3
Dull Cyllid a Thollau EF (CThEF) o gyfrifo'r amcangyfrif o refeniw treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23

**Mae amcangyfrif CThEF yn dibynnu ar ddata sampl a dosraniad o amcangyfrifon ledled y DU i gyfrifo cyfran Cymru o refeniw treth incwm**

**Yr Arolwg o Incwm Personol**

Casglodd CThEF ddata o sampl o 1.5% o drethdalwyr y DU yn 2019-20.[1]

→

**Model Treth Personol**

Cyfrifodd CThEF mai 1.18% oedd cyfran ganrannol treth incwm y DU a oedd yn ymwneud â threthdalwyr Cymreig.

→

**Cyfran Cymru wedi ei haddasu**

Addasodd CThEF y gyfran ganrannol i adlewyrchu newidiadau i'r boblogaeth, enillion a deddfwriaeth treth ers yr Arolwg o Incwm Personol.

Arweiniodd hyn at gyfran ddiwygiedig i Gymru o 1.18%.

→

**Cyfanswm atebolrwydd treth incwm y DU ar gyfer 2022-23**

Cyfunodd CThEF atebolrwydd Hunanasesu[2] â derbyniadau TWE i gyfrifo cyfanswm yr atebolrwydd[3] ar gyfer y DU o £228.4 biliwn.

→

**Cyfanswm atebolrwydd treth incwm Cymru ar gyfer 2022-23**

Cymhwysodd CThEF gyfran Cymru a gyfrifwyd yn flaenorol at gyfanswm yr atebolrwydd treth incwm. £2.7 biliwn oedd yr amcangyfrif o dreth incwm Cymru a gyfrifwyd.[4]

→

**Amcangyfrif o Refeniw Cymru a Galibradwyd ar gyfer 2022-23**

Cyfrifodd CThEF addasiad calibradu cyffredinol o 2.4% er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod yr alldro gwirioneddol, yn hanesyddol, wedi bod yn is na'r swm a amcangyfrifwyd ar y cychwyn wrth ddefnyddio'r fethodoleg hon. £2.6 biliwn yw'r amcangyfrif a galibradwyd.[5]

**Nodiadau**

1 Mae Arolwg blynyddol CThEF o Incwm Personol yn sampl o ddata trethdalwyr y DU o systemau treth TWE a Hunanasesu. Mae'r Model Treth Personol yn rhoi amcanestyniad o'r canlyniad ar gyfer atebolrwydd treth incwm yn 2022-23, gan addasu ar gyfer cyfraddau gwahanol twf poblogaeth a ffactorau economaidd, megis codiad cyflog, i gyfrifo cyfran Cymru.

2 Incwm nad yw'n gynilion na difidendau yn unig.

3 Daw data TWE oddi wrth system Gwybodaeth Amser Real CThEF. Daw'r data hunanasesu o Fodel Hunanasesu CThEF.

4 Cymhwysodd CThEF gyfran Cymru a gyfrifwyd yn flaenorol at gyfanswm yr atebolrwydd treth incwm cyn Cymorth Rhodd, ac yna tynnodd y gyfran amcangyfrifedig o Gymorth Rhodd a oedd yn berthnasol i Gymru ynghyd ag addasiadau eraill llawer llai o faint.

5 Mae CThEF yn gwneud yr addasiad calibradu ar gyfer Cymru ar sail bandiau. O'i gymharu â'r alldro, cyfrifwyd mai 2.4% oedd yr addasiad ar gyfer y gyfradd sylfaenol. Cyfrifwyd mai'r addasiad ar gyfer y gyfradd uwch oedd 0.7% a'r addasiad ar gyfer y gyfradd ychwanegol oedd 7.8%. O edrych arnynt yn eu cyfanrwydd, gwnaeth effaith yr addasiadau hyn leihau'r amcangyfrif 2.4%.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EF

**1.19** Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod dull gweithredu CThEF yn rhesymol. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau a ddisgrifiwyd gennym mewn adroddiadau blaenorol mewn perthynas â'r fethodoleg a ddefnyddir gan CThEF i amcangyfrif refeniw treth incwm Cymru yn berthnasol o hyd ar gyfer 2022-23:

- Mae'r addasiad calibradu yn tybio bod y goramcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn gyson â 2021-22 o ran canran, ond nid yw CThEF yn deall achosion y goramcangyfrif yn 2021-22 yn llawn a gallai unrhyw ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n cyfrannu at y goramcangyfrif fod yn wahanol yn 2022-23.
- Mae defnydd CThEF o ddata sampl yn creu ansicrwydd samplu yn yr amcangyfrif o refeniw, y mae CThEF yn rhan Cymru ohono fel canran.
- Mae'r fethodoleg yn cyfuno cyfrifiad atebolrwydd TWE a Hunanasesu ar gyfer y DU fel nad yw'r swm a ddosrannodd CThEF i Gymru yn adlewyrchu cyfrannau gwahanol pob math o drethdalwr rhwng Cymru a gweddill y DU.
- Mae'r data y mae CThEF yn eu defnyddio ar gyfer TWE yn cynnwys pob math o incwm ac nid ydynt yn eithrio treth o incwm cynilion nac incwm difidendau.
- Rhaid i CThEF wneud tybiaethau ynghylch maint a gwerth y tandaliadau a'r gordaliadau sy'n gysylltiedig ag atebolrwydd TWE.

**1.20** Nododd CThEF mai'r brif ffynhonnell o ansicrwydd yn amcangyfrif 2022-23 yw pa mor gywir y gall amcangyfrif cyfran Cymru o atebolrwydd treth incwm y DU. Mae'r gyfran amcangyfrifedig y mae CThEF yn ei chyfrifo yn seiliedig ar ddata arolygon o 2019-20 ac, felly, mae risg gynhenid y gallai'r ffigur hwn newid ar gyfer Cymru erbyn 2022-23. Mae CThEF yn amcangyfrif y bydd atebolrwydd treth incwm Cymru yn cynyddu ychydig yn arafach nag yn y DU yn gyffredinol. Ymhlith y ffactorau allanol a greodd ansicrwydd ychwanegol ynghylch amcangyfrif cyfran Cymru yn 2022-23, roedd cyfraddau llog a chwyddiant uwch, twf cyflogau a phrisiau ynni uchel ac anwadal. Yn ein barn ni, mae CThEF wedi mabwysiadu dull rhesymol o amcangyfrif effaith y meysydd ansicrwydd hyn ar refeniw treth incwm Cymru yn 2022-23.

# Rhan Dau

## Gweinyddu treth incwm Cymru

**2.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cwmpasu'r canlynol:

- Prosesau allweddol Cyllid a Thollau EF (CThEF) wrth weinyddu'r system treth incwm a'r ffordd rydym wedi cael sicrwydd arnynt (paragraffau 2.5 i 2.14);
- Gweithdrefnau CThEF i nodi a chynnal cofnod cyflawn a chywir o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig (paragraffau 2.15 i 2.25);
- y ffordd y mae CThEF yn nodi risgiau i gydymffurfiaeth ac ymateb iddynt (paragraffau 2.26 i 2.34).

**2.2** Mae CThEF yn defnyddio'r un systemau i weinyddu treth incwm p'un a ddaw o drethdalwr yng Nghymru neu weddill y DU. Fodd bynnag, mae CThEF yn gweithredu rheolau a gweithdrefnau ychwanegol i Gymru hefyd, ac rydym yn asesu'r rhain isod. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldeb CThEF i weinyddu treth incwm i drethdalwyr Cymreig yn yr un ffordd â'r gwasanaeth a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

**2.3** O dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921, mae'n rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw systemau CThEF yn ddigonol i asesu a chasglu treth yn y DU, gan gynnwys treth incwm. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad (yr Adroddiad Safonol), ochr yn ochr ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEF, sy'n nodi casgliadau'r Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol yn hyn o beth. Yn ein Hadroddiad Safonol ar gyfer 2022-23, daethom i'r casgliad bod CThEF wedi llunio rheoliadau a gweithdrefnau digonol i sicrhau gwiriad effeithiol o'r broses o asesu refeniw, ei gasglu a'i ddyrannu'n briodol, a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol.

**2.4** I gefnogi casgliadau'r adroddiad hwn, gwnaethom ymestyn ein profion ledled y DU i fynd i'r afael â risgiau a dulliau gweithredu sy'n deillio o wahaniaethau mewn polisi treth incwm. Gwnaethom hefyd gynnal gweithdrefnau penodol yn edrych ar weithgareddau glanhau cyfeiriadau a chydymffurfiaeth â threth ehangach CThEF. Llywiodd y gweithgareddau hyn ein hasesiad o gyflawnder a chywirdeb amcangyfrifon CThEF o dreth incwm Cymru. Wrth ddod i'n casgliadau, gwnaethom archwilio sawl elfen o weinyddiaeth dreth ddatganoledig, megis gwaith parhaus CThEF o gadw cofnodion trethdalwyr Cymreig, a'r ffordd y nododd risgiau i gydymffurfiaeth â threthi datganoledig ac yr ymatebodd iddynt.

## Y system treth incwm

**2.5** Mae system CThEF ar gyfer casglu treth incwm yn gyson ledled y DU. Yn dibynnu ar y math o incwm y mae unigolyn yn ei gael, caiff treth incwm ei hasesu a'i chasglu drwy ddidyniadau gan y cyflogwr o enillion o dan Dalu wrth Ennill (TWE), drwy ffurflen Hunanasesu a gyflwynir gan y trethdalwr, neu drwy'r ddau.

**2.6** Mae i'r prosesau TWE a Hunanasesu egwyddorion cyffredin, er bod CThEF yn defnyddio systemau TG a ffynonellau data gwahanol er mwyn asesu a chasglu treth. Mae **Ffigur 4** drosodd yn nodi'r egwyddorion hyn ac yn disgrifio'r prif brosesau ar gyfer pob ffrwd treth incwm.

## Sicrwydd ynghylch prosesu treth incwm

**2.7** Mae ein rhaglen flynyddol o waith archwilio mewn perthynas â CThEF yn cynnwys gweithdrefnau sy'n rhoi sicrwydd ynghylch rheolaethau prosesu treth allweddol. Caiff y rheolaethau hyn eu rhannu'n fras yn ddau gategori:

- rheolaethau system awtomataidd o ran ymdrin â data, eu storio a'u prosesu;
- rheolaethau busnes allweddol cymhleth sy'n cynnwys lefel uchel o awtomatiaeth


**2.8** Yn dilyn diweddariadau blynyddol i reolau busnes er mwyn adlewyrchu cyfraddau treth, trothwyon a lwfansau sy'n newid ar gyfer y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, mae CThEF yn cwblhau sawl cam o'r profion sicrwydd ar reolaethau busnes allweddol er mwyn cadarnhau gweithrediad y system. Fel rhan o'n harchwiliad, rydym yn gwerthuso cwmpas y profion hyn ac yn ail-wneud elfennau o'r gwaith er mwyn cadarnhau casgliadau CThEF. Mae'r prosesau allweddol ar gyfer TWE yn cynnwys:

- cysoni gwybodaeth gan gyflogwyr â chofnodion treth personol bob blwyddyn er mwyn cadarnhau'r dreth sy'n ddyledus ar enillion a chyfrifo unrhyw achosion o ordalu neu dandalu treth yn seiliedig ar y wlad y preswylir ynddi;
- rhoi codau treth ar gyfer trethdalwyr TWE bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am breswyliaeth er mwyn sicrhau bod cyflogwyr yn didynnu treth o dan reolau treth y wlad gywir.

**2.9** Mae CThEF yn cymhwyso prosesau tebyg at bob ffurflen Hunanasesu unigol a dderbynnir ganddo. Mae trethdalwyr Hunanasesu yn gwneud taliadau ar y cyfrif ac yn cyfrifo eu hatebolrwydd treth eu hunain ar ddiwedd y flwyddyn gan ddefnyddio cyfrifiannell CThEF ar y ffurflen dreth a gyflwynir.

## Ffigur 4
System treth incwm y DU

**Mae’r prosesau Talu wrth Ennill (TWE) a Hunanasesu yn rhannu egwyddorion cyffredin o ran asesu a chasglu treth incwm**




**Nodiadau**

1 Nid yw prosesau TWE a Hunanasesu yn digwydd ar yr un pryd. Caiff TWE ei brosesu yn ystod y flwyddyn dreth a’i gysoni ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Ni chaiff ffurflenni Hunanasesu eu cyflwyno tan fis Ionawr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth.

2 Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, mae proses gysoni TWE CThEF yn cyfrifo’r atebolrwydd treth incwm ar gyfer pob trethdalwr gan ddefnyddio’r holl ddata sydd ar gael. Caiff yr atebolrwydd a gyfrifwyd ei gymharu â’r symiau a ddidynnwyd yn eu tarddiad neu a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr yn uniongyrchol i bennu p’un a gasglwyd y dreth gywir.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EF

## Treth incwm ddatganoledig

**2.10** Y brif ffordd y mae'r broses o weinyddu treth incwm Cymru yn wahanol i brosesau'r DU yw'r rheolau busnes y mae system CThEF yn eu cymhwyso wrth gwblhau atebolrwydd treth a'r cyfrifiadau cod treth. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i reolau'r system ers ein hadroddiad diwethaf a oedd yn cwmpasu 2021-22. Mae'r rheolau y mae system CThEF yn eu cymhwyso ar gyfer drethdalwyr Cymreig fel a ganlyn:

- Mae'n gwirio statws preswylio'r unigolyn ac yn cymhwyso rhagddodiad cod treth 'C' pan nodir ei fod yn preswylio yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd i gyflogwyr gasglu treth o dan gyfraddau treth Cymru. Lle nad yw unigolyn yn preswylio yng Nghymru mwyach, mae'r system yn tynnu'r rhagddodiad 'C'.
- Lle mae'r system yn nodi bod unigolyn yn preswylio yng Nghymru, mae'n cymhwyso cyfraddau a bandiau treth Cymru at yr incwm a nodwyd wrth gyfrifo'r atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol.
- os nodwyd bod unigolyn yn drethdalwr Cymreig a'i fod wedi'i gofrestru ar gynllun TWE, mae'r system yn defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru i gyfrifo cod treth newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.


**2.11** Mae ffurflenni Hunanasesu yn cynnwys blwch gwirio er mwyn i'r trethdalwr nodi a oeddent yn preswylio yng Nghymru yn ystod y flwyddyn dreth. Os yw'r hyn a nodir yn wahanol i gofnodion CThEF, bydd CThEF yn defnyddio'r cyfeiriad a ddelir ganddo i gyfrifo atebolrwydd treth y trethdalwr. Mae CThEF yn hysbysu trethdalwyr am yr anghysondeb ac yn gofyn iddynt ddiweddaru eu cyfeiriad os bydd angen. Mae **Ffigur 5** drosodd yn dangos lle mae gwahaniaethu o'r fath yn digwydd yn y system treth incwm.

### Rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn

**2.12** Rhaid i weinyddwyr cynlluniau pensiwn nodi trethdalwyr Cymreig fel y caiff rhyddhad treth ei ddyrannu'n gywir. Mae gweinyddwyr pensiwn yn hawlio rhyddhad treth yn y tarddiad ar ran eu haelodau ac yn ychwanegu hyn at gyfraniadau eu haelodau. Mae system Rhyddhad yn y Tarddiad CThEF yn rhoi cadarnhad awtomatig o statws preswylio aelodau o gynllun pensiwn er mwyn sicrhau y cymhwysir y rhyddhad cywir yn y tarddiad. Mae'n cymhwyso rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn ar y gyfradd sylfaenol o 20% i bob trethdalwr. Gall trethdalwyr Cymreig sy'n talu treth ar gyfradd uwch nag 20% hawlio'r rhyddhad treth sy'n weddill drwy ffurflen Hunanasesu neu drwy gysylltu â CThEF.

## Ffigur 5
Gwahaniaethau yn y system treth incwm ar gyfer trethdalwyr Cymreig

**Mae rheolau busnes Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi'u llunio i brosesu treth incwm gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r trothwyon sy'n gymwys i statws preswylio trethdalwr**




Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o brosesau Cyllid a Thollau EF

**2.13** Er mwyn gweinyddu rhyddhad yn ei darddiad, mae CThEF yn gofyn i bob gweinyddwr pensiwn gyflwyno adroddiad blynyddol, gan restru cyfraniadau ei aelodau yn ystod y flwyddyn dreth flaenorol. Mae systemau CThEF yn olrhain aelodau'r cynllun yn awtomatig ac yn eu paru â chyfeiriadau a ddelir i nodi trethdalwyr Cymreig. Yna caiff Adroddiad ar Hysbysiad Blynyddol o Breswyliaeth ei anfon at bob gweinyddwr pensiwn. Cadarnhaodd CThEF statws preswylio ar gyfer 93% o aelodau cynlluniau pensiwn yng Nghymru a'r Alban yn dilyn blwyddyn dreth 2021-22, sef cyfran debyg i'r un a gofnodwyd yn y pum mlynedd diwethaf. Nid oes ffigur sy'n benodol i Gymru ar gael. Yn dilyn blwyddyn dreth 2021-22, cyhoeddodd CThEF Adroddiad ar Hysbysiad Blynyddol o Breswyliaeth i weinyddwyr cynlluniau pensiwn ym mis Ionawr 2023.

### Rhyddhad treth ar gyfraniadau Cymorth Rhodd

**2.14** Mae CThEF yn rhoi rhyddhad treth ar gyfraniadau Cymorth Rhodd yng Nghymru ar gyfradd sylfaenol y DU, sef 20%. Y rheswm dros hyn yw nad oes gan CThEF systemau ar waith i nodi statws preswylio trethdalwyr sy'n cyfrannu at elusen. Gall pob trethdalwr sy'n talu treth uwchlaw'r gyfradd sylfaenol hawlio'r gwahaniaeth rhwng ei gyfradd treth a'r gyfradd sylfaenol ar ei rodd. Pan wneir cyfraniadau gan drethdalwyr Cymreig, mae CThEF yn cymhwyso'r gyfradd gywir o ryddhad pan gaiff ei hysbysu o'r swm a roddwyd naill ai drwy gais i ddiwygio cod treth neu drwy ffurflen Hunanasesu.

## Y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

**2.15** Yn ôl cyfrifiad CThEF, roedd 1.4 miliwn o drethdalwyr Cymreig yn 2021-22.[4] Mae trethdalwr Cymreig yn rhywun sy'n atebol am dalu treth ac y mae ei brif breswylfa yn ystod y flwyddyn dreth yng Nghymru.[5] Roedd trethdalwyr cyfradd uwch a chyfradd ychwanegol yn cyfrif am 8.5% o'r boblogaeth a oedd yn talu treth incwm Cymru yn 2021-22 (o gymharu â 7.7% yn 2020-21) a gwnaethant gyfrannu 42.9% o'r dreth incwm a dalwyd (o gymharu â 40.7% yn 2020-21). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad i rewi trothwyon treth a'r ffaith bod trethdalwyr wedi symud i ddosbarthiadau treth uwch. Roedd trethdalwyr cyfradd sylfaenol yn cyfrif am 91.5% o'r boblogaeth ac yn darparu bron i 57.1% o'r dreth a dalwyd (**Ffigur 6** drosodd).

## Sicrwydd ynghylch cyfeiriadau

**2.16** Cynnal cofnodion cywir a chyflawn o'r boblogaeth o drethdalwyr Cymreig yw'r brif her o hyd i CThEF wrth weinyddu treth incwm Cymru. Mae gan CThEF nifer o ffynonellau gwybodaeth ar gyfer newidiadau mewn cyfeiriadau ond mae'n dibynnu'n bennaf ar drethdalwyr yn rhoi gwybod iddo am unrhyw newidiadau o'r fath yn brydlon, er nad oes gofyniad cyfreithiol i drethdalwyr wneud hynny. Mae CThEF hefyd yn cael gwybodaeth am gyfeiriadau o ffynonellau eraill megis cyflogwyr, er nad yw'n ofynnol i gyflogwyr roi diweddariadau pan fydd eu cyflogeion yn newid eu cyfeiriad.


**2.17** Mae'n rhaid i wybodaeth am gyfeiriadau fod yn gywir er mwyn sicrhau y caiff y swm cywir o dreth ei gasglu gan unigolion a'i ddyrannu i'r llywodraeth briodol. Mae gan CThEF sawl proses sicrwydd ar waith i gynnal cyflawnrwydd a chywirdeb y data cyfeiriadau a ddefnyddir ganddo i nodi trethdalwyr Cymreig (**Ffigur 7** ar dudalen 25).

4 Cyllid a Thollau EF, *Welsh Income Tax Outturn Statistics: 2021 to 2022*, Gorffennaf 2023.
5 Tybir bod Seneddwyr Cymru hefyd yn drethdalwyr Cymreig. Gweler paragraff 2.25 am ragor o fanylion.

## Ffigur 6

Cyfrannau talwyr treth incwm yn ôl band a threth incwm a dalwyd yng Nghymru, 2021-22

**Roedd trethdalwyr cyfradd uwch a chyfradd ychwanegol yn cyfrif am 8.5% o'r boblogaeth ond gwnaethant gyfrannu 42.9% o'r dreth incwm a dalwyd**




**Nodyn**

1 2021-22 yw'r flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer.

Ffynhonnell: Dadansoddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ddata Cyllid a Thollau EF

## Ffigur 7
Sicrwydd ynghylch y boblogaeth o drethdalwyr Cymreig

**Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn cynnal sawl gweithgaredd sicrwydd i gynnal cyflawnrwydd a chywirdeb sylfaen drethu Cymru**

| Gweithgarwch sicrwydd | Disgrifiad a diben | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Rheolaethau sy'n sicrhau bod preswyliaeth yng Nghymru yn cael ei phennu'n gywir gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddelir gan CThEF | | |
| Codau post newydd | Mae cymharu rhestr CThEF o godau post Cymru â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn sicrhau bod codau post yn gyfredol. | Mae CThEF yn derbyn data ar godau post bob chwarter oddi wrth SYG. Ychwanegodd 465 o godau post newydd yn 2022-23. |
| Glanhau cyfeiriadau | Sganiau o gofnodion trethdalwyr a ddelir gan CThEF i nodi codau post sydd ar goll neu annilys a fyddai'n arwain at gymhwyso statws preswylio anghywir. | Nodwyd 15,746 o godau post a oedd ar goll drwy'r sganiau a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022. Cafodd 418 o'r achosion hyn eu diweddaru gan CThEF am fod ganddynt gofnod o gyflogaeth gyfredol neu bensiwn. Nododd CThEF 36,573 o godau post annilys hefyd a diweddarwyd 352 o gofnodion trethdalwyr a oedd yn nodi cyflogaeth gyfredol neu bensiwn.[1] |
| Codau post trawsffiniol | Mae systemau CThEF yn nodi newidiadau i gyfeiriadau pan fydd cyfeiriadau newydd mewn cod post sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae CThEF yn adolygu'r achosion hyn er mwyn sicrhau ei fod yn pennu'r statws preswyliaeth cywir. | Yn 2022-23, cafodd CThEF 434 o achosion trawsffiniol, y diwygiodd 68 ohonynt ar ôl ymchwilio iddynt. |
| Statws preswylio coll nas nodwyd | Sganiau i nodi cofnodion trethdalwyr Cymreig na chânt eu nodi fel cofnodion o'r fath yn y system. | Nododd sganiau CThEF yn ystod 2022-23 465 o achosion, y cafodd pob un ohonynt eu diweddaru ganddo. |
| Rheolaethau i fonitro gweithrediad Talu Wrth Ennill (TWE) gan gyflogwyr | | |
| Sganiau i gymharu codau treth | Cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â chofnod trethdalwyr CThEF, i nodi achosion lle mae'r cyflogwr yn cymhwyso cod treth gwahanol i CThEF. | Ym mis Ionawr 2023 nododd CThEF 44,852 o achosion lle nad oedd rhagddodiaid 'C' wedi cael eu cymhwyso'n gywir at godau treth.[2] Mae'n ysgrifennu at gyflogwyr i ofyn iddynt ddiweddaru'r codau treth anghywir. |
| Rheolaethau i nodi cyfeiriadau anghywir a ddelir gan CThEF | | |
| Cymharu data trydydd parti | Cymharu cofnodion cyfeiriadau trethdalwyr â ffynonellau data trydydd parti a ddelir gan CThEF i nodi achosion lle mae cofnodion CThEF yn anghyson â data trydydd parti. Yr ymarfer yw prif ffynhonnell CThEF o sicrwydd ynglŷn â chywirdeb ei gofnodion cyfeiriadau. | Mae CThEF a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal yr ymarfer hwn bob dwy flynedd. Yn ystod yr ymarfer diweddaraf, a gwblhawyd ym mis Awst 2023, cymharwyd 3.0 miliwn o gofnodion cyfeiriadau trethdalwyr Cymreig. Nododd CThEF 10,745 o gofnodion lle nad oedd y breswyliaeth a nodwyd o'r cyfeiriad a ddaliwyd gan CThEF yn cyfateb i'r breswyliaeth a awgrymwyd gan ddata trydydd parti. |
| Unigolion cyfoethog | Mae CThEF yn cynnal gwiriadau a gweithdrefnau i adolygu symudiadau unigolion gwerth net uchel a sicrhau bod eu cyfeiriadau yn gyfredol. Mae timau arbenigol yn meithrin dealltwriaeth fanwl o sefyllfa ariannol ac ymddygiadau'r trethdalwyr hyn a'u risgiau i gydymffurfiaeth. | |

**Nodiadau**
1 Caiff codau post annilys a nodwyd eu cywiro neu eu gosod â llaw fel rhai Cymreig os na fydd yn bosibl pennu'r cod post cywir o'r cyfeiriad.
2 Daw'r ffigurau o ddadansoddiad CThEF o sganiau codau treth misol ac maent yn dangos nifer y codau treth lle na chafodd y rhagddodiad 'C' Cymreig ei gymhwyso'n gywir, lle y byddai'r cod treth wedi bod yn gywir fel arall.

Ffynhonnell: Crynodeb y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o weithgareddau Cyllid a Thollau EF

## Sganiau codau post

**2.18** Mae CThEF yn sganio cofnodion trethdalwyr i nodi codau post sydd ar goll neu annilys a fyddai'n arwain at gymhwyso statws preswylio anghywir. Nododd sgan 2022-23, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022, 52,319 o godau post a oedd naill ai ar goll neu'n annilys (4% o'r boblogaeth gyffredinol o drethdalwyr), o gymharu ag 81,716 (6%) a 53,467 (4%) yn y sganiau blaenorol ym mis Mehefin 2021 a mis Medi 2020. Mae CThEF yn ymchwilio i achosion lle roedd unigolion naill ai'n gyflogedig neu'n derbyn pensiwn ac yn eu diweddaru. Yn 2022-23, diweddarodd CThEF 770 o gofnodion, o gymharu â 1,708 yn 2021-22 a 6,343 yn 2020-21. Caiff achosion nad yw CThEM wedi'u diweddaru eu nodi fel rhai segur gan nad oes unrhyw incwm y mae'n rhaid talu treth arno ar hyn o bryd.

## Gweinyddu codau treth Cymru

**2.19** Os na fydd cyflogwr yn cymhwyso'r rhagddodiad 'C' at god treth cyflogai, bydd yn didynnu treth ar gyfradd y DU. Mae CThEF yn cysoni'r hyn y mae pob trethdalwr wedi'i dalu mewn treth yn erbyn yr hyn y cred y dylai fod wedi'i dalu ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Yna mae CThEF yn defnyddio'r wybodaeth derfynol hon a'r statws preswylio a ddelir ar ei system i gyfrifo'r dreth y dylai pob trethdalwr ei thalu. Felly, nid effeithir ar yr alldro ar gyfer Cymru pan na fydd y rhagddodiad 'C' mewn cod treth unigolyn wedi ei weithredu'n gywir gan gyflogwr.

**2.20** Bob mis mae CThEF yn cymharu codau treth mewn cyflwyniadau TWE â'i gofnod trethdalwyr ei hun er mwyn nodi achosion lle mae cyflogwyr yn defnyddio cod treth gwahanol. Ym mis Ionawr 2023, roedd 44,852 o achosion (2.4% o'r achosion) lle nad oedd cyflogwyr yn gweithredu cod treth â rhagddodiad 'C'. Mae'r nifer hwn yn amrywio yn ystod y flwyddyn ond mae wedi parhau i fod yn is na 3% ers mis Mawrth 2021. Mewn adroddiadau blaenorol, nodwyd nad yw CThEF wedi pennu targed ar gyfer pa mor isel y byddai'n rhaid i nifer y rhagddodiaid 'C' sydd ar goll fod cyn y gallai ddweud bod ei weithgarwch cydymffurfio wedi bod yn llwyddiannus.

**2.21** Pan fydd CThEF yn gweld nad yw cyflogwr yn defnyddio'r cod treth cywir, bydd yn anfon hysbysiad P6 yn gofyn iddo ddiweddaru cod treth cyflogai. Mae CThEF yn nodi cyflogwyr sy'n gwneud gwallau cyson ac yn gweithio gyda nhw i roi'r cod treth cywir ar waith. Dywedodd CThEF wrthym fod nifer y cyflogwyr sy'n defnyddio'r cod treth anghywir yn gyson yn fach iawn ac, felly, nad yw'n tracio'r wybodaeth hon fel mater o drefn.

## Ymarfer data trydydd parti

**2.22** Mae CThEF yn cymharu'r cofnodion sydd ganddo am gyfeiriadau trethdalwyr Cymreig â data trydydd parti er mwyn nodi gwahaniaethau. Y gymhariaeth hon yw prif ffynhonnell sicrwydd CThEF o ran y wybodaeth a ddelir ganddo am gyfeiriadau ac mae wedi cytuno'n flaenorol â Llywodraeth Cymru i gynnal yr ymarfer bob dwy flynedd.

**2.23** Ym mis Awst 2023, cymharwyd 3.0 miliwn o gofnodion a ddaliwyd gan CThEF â data trydydd parti, sy'n dangos y canlynol:

- Llwyddwyd i baru 2.2 miliwn o gofnodion (75.8% o'r cofnodion a ddadansoddwyd) a ddaliwyd gan CThEF â data trydydd parti â chyfeiriad yn yr Alban. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gyfradd baru yn yr ymarfer data trydydd parti blaenorol yn 2021 (75.7%) ac mae'n dal i fod yn is na'r 80.7% a barwyd yn 2019;
- nodwyd 10,745 o gofnodion (0.4% o'r cofnodion a ddadansoddwyd) lle nad oedd y breswyliaeth a nodwyd o'r cyfeiriad a ddaliwyd gan CThEF yn cyfateb i'r breswyliaeth a awgrymwyd gan ddata trydydd parti;
- Ni ellid cadarnhau statws preswylio trethdalwyr ar gyfer 0.7 miliwn o gofnodion (24.1% o'r cofnodion a ddadansoddwyd) drwy gymharu â'r data trydydd parti. Adolygodd CThEF y cofnodion hyn yn erbyn ffynonellau data mewnol eraill er mwyn cael sicrwydd ynghylch cywirdeb y cyfeiriadau a ddaliwyd.[6]

**2.24** Daeth canlyniadau ymarfer 2023 ar gael ym mis Rhagfyr 2023 ac nid yw CThEF wedi asesu eto pa ffactorau a gyfrannodd at unrhyw dueddiadau o ran data. Ar gyfer y lleihad rhwng 2019 a 2021 yng nghyfran y cofnodion a barwyd â thrydydd parti, nododd CThEF sawl ffactor posibl, gan gynnwys: effaith rheoliadau diogelu data ar setiau data trydydd parti; cyfradd marwolaethau uwch oherwydd pandemig COVID-19; y penderfyniad i gynnwys pobl ifanc 16-18 oed ar y gofrestr etholwyr; cynnydd yn nifer y bobl sy'n newid cyfeiriad.

## Seneddwyr Cymru

**2.25** Tybir yn awtomatig fod seneddwyr Cymru yn drethdalwyr Cymreig mewn unrhyw flwyddyn dreth tra byddant yn eu swydd. Mae hyn yn gymwys i'r 60 o aelodau etholedig yn Senedd Cymru (ASau) a'r 40 o Aelodau Seneddol yn San Steffan sy'n cynrychioli etholaeth yng Nghymru. Ym mis Awst 2020, cyflwynodd CThEM newidiadau i'r system a gynlluniwyd i ddileu'r angen iddo ddiweddaru cofnodion Seneddwyr â llaw bob blwyddyn i'w cofnodi fel trethdalwyr Cymreig. Unwaith y bydd CThEF yn cofnodi un o Seneddwyr Cymru fel trethdalwr Cymreig, bydd ei system yn diystyru ei reolau busnes arferol yn awtomatig, nes i CThEF ailosod y swyddogaeth ddiystyru ar gyfer pob Seneddwr â llaw. Dywedodd CThEF wrthym nad oedd wedi nodi unrhyw faterion mewn perthynas â Seneddwyr Cymru yn cael eu cofnodi fel trethdalwyr Cymreig yn ystod 2022-23.

6 Cafodd tua 71,000 o gofnodion eu diystyru o unrhyw ddadansoddiad am fod yr unigolion dan sylw o dan 18 oed, wedi marw, wedi nodi eu bod yn byw dramor neu'n gofnodion dyblyg.

## Asesu risg a gwaith cynllunio o ran cydymffurfiaeth

**2.26** Mae CThEF yn cymhwyso'r un dull gweithredu cydymffurfiaeth i gasglu treth incwm yng Nghymru ag y mae'n ei gymhwyso yng ngweddill y DU. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnwys y canlynol:

- **hyrwyddo** cydymffurfiaeth drwy ddylunio prosesau i annog a helpu cwsmeriaid i gael pethau'n iawn y tro cyntaf;
- **atal** diffyg cydymffurfiaeth drwy ddyluniad prosesau a dealltwriaeth cwsmeriaid a chynnig cyfle i unioni camgymeriadau;
- **ymateb** i risgiau o ran cydymffurfiaeth, ymchwilio iddynt a'u hunioni gan ddefnyddio gweithgarwch wedi'i deilwra pan fydd angen ymyrryd.

**2.27** Fel rhan o'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Llywodraeth Cymru, mae CThEF yn llunio Darlun Strategol o Risg ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn flynyddol er mwyn asesu risgiau i gydymffurfiaeth sy'n berthnasol i Gymru a chynllunio ar eu cyfer. Ar gyfer y Darlun Strategol hwn o Risg, mae CThEF yn ystyried y risgiau allweddol i gydymffurfiaeth ar lefel gyffredinol y DU ac yn cymhwyso gwerth er mwyn cynrychioli cyfran y risgiau hyn sy'n berthnasol i Gymru. Mae'n cyfrifo pob risg yn unol â chyfran Cymru o dreth incwm y DU yn Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru. Nid yw CThEF yn amrywio maint y gyfran hon ar gyfer pob risg ac nid yw wedi profi ei dybiaeth bod lefel diffyg cydymffurfiaeth yng Nghymru yr un peth â lefel diffyg cydymffurfiaeth yng ngweddill y DU. Dywedodd y byddai costau a heriau methodolegol sylweddol yn gysylltiedig â gwneud hynny. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw CThEF wedi nodi unrhyw risgiau sylweddol sy'n benodol i Gymru ac mae'n ystyried bod y prif risgiau i dreth incwm Cymru yr un fath â'r rhai ar gyfer y DU gyfan. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys:

- osgoi trethi, lle mae unigolion neu fusnesau yn hepgor, yn celu neu'n camliwio gwybodaeth yn fwriadol er mwyn lleihau eu hatebolrwydd i dalu treth;
- yr economi gudd, lle na chaiff incwm trethadwy ei datgan neu lle y caiff incwm datganedig ei danddatgan yn fwriadol;
- osgoi trethi, lle y camfanteisir ar reolau treth er mwyn cael mantais treth nad oedd Senedd y DU erioed wedi'i bwriadu.

### Gweithgarwch cydymffurfiaeth a rheoli dyledion CThEF

**2.28** Ledled y DU, roedd nifer yr achosion yn ymwneud â chydymffurfiaeth a agorwyd gan CThEF yn 2022-23 yn fwy nag yn 2021-22 ond roedd yn dal i fod 17% yn llai nag yn 2019-20 cyn y pandemig. Yn 2022-23, caeodd 20% yn llai o achosion nag yn 2019-20. Dywed CThEF fod hyn adlewyrchu'n rhannol ei strategaeth i ganolbwyntio fwyfwy ar ymdrechion yn uwch i fyny i sicrhau bod trethdalwyr yn cydymffurfio yn y lle cyntaf a blaenoriaethu achosion mwy o faint ac achosion effaith uwch.

**2.29** Ychydig iawn o wybodaeth sydd gan CThEF am holl weithgarwch cydymffurfio yr ymgymerir ag ef yng Nghymru. Mae ei system gydymffurfiaeth yn galluogi CThEF i 'godi fflag' lle mae achos posibl o gamddefnyddio statws preswylio wedi'i nodi. Rydym ar ddeall nad oes unrhyw 'fflagiau' o'r fath ar y system gydymffurfiaeth ar hyn o bryd. Dywedodd CThEF wrthym, er mwyn cael gwybodaeth am nifer yr achosion cydymffurfio gweithredol sy'n ymwneud â threthdalwyr Cymreig am resymau nad ydynt yn ymwneud â'u statws fel trethdalwyr Cymreig, fod angen chwilio systemau gwybodaeth gwahanol. Yn wahanol i'r system treth incwm, a all nodi trigolion Cymreig, ni all system gwybodaeth reoli cydymffurfio CThEF nodi pobl sy'n byw yng Nghymru yn hawdd ac mae'n rhaid cymharu gwybodaeth â data eraill er mwyn nodi cyfanswm yr achosion o ddiffyg cydymffurfio yng Nghymru.

**2.30** Mae CThEF yn mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio drwy enillion cydymffurfio, ei amcangyfrif o'r refeniw ychwanegol y mae'n ystyried ei fod wedi'i gynhyrchu a'r colledion y mae wedi'u hatal. Enillion CThEF o'i weithgareddau cydymffurfiaeth â threth ar gyfer y DU gyfan oedd £34.0 biliwn yn 2022-23, sef cynnydd o 10% o gymharu â 2021-22 ac yn uwch na'r cyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf (2018-19 i 2022-23), sef £33.2 biliwn. Fodd bynnag, roedd enillion cydymffurfio yn 2022-23 islaw targed CThEF, sef £36 biliwn. Fel cyfran o gyfanswm y refeniw, parhaodd enillion cydymffurfio ar 4.2%. Esboniodd CThEF ei fod yn dal i weld effeithiau llai o weithgarwch yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn ystod pandemig COVID-19 yn ei berfformiad yn 2022-23.

**2.31** Amcangyfrif CThEF o'r enillion cydymffurfio ar gyfer cyfran Cymru o'r risg yn yn y Darlun Strategol o Risg sy'n berthnasol i Gymru yn 2021-22 oedd £120 miliwn. Mae CThEF hefyd yn amcangyfrif mai cyfran Cymru o golledion net o'r risgiau yn y Darlun Strategol o Risg oedd £390 miliwn yn 2020-21. Y data hyn yw'r rhai mwyaf diweddar sydd ar gael. Mae CThEF yn cyfrifo'r ffigurau hyn fel cyfran o ffigur cyfatebol y DU, yn hytrach na defnyddio data penodol i Gymru er mwyn meintioli'r risgiau. Nid yw CThEF yn ystyried amrywiad daearyddol rhwng Cymru a gweddill y DU wrth asesu risgiau i gydymffurfiaeth na llwyddiant cymharol gweithgarwch cydymffurfio nac yn adrodd arno.

**2.32** Y bwlch treth yw'r gwahaniaeth rhwng swm y dreth y dylid ei dalu a'r hyn a delir mewn gwirionedd. Nid yw CThEF yn nodi bwlch treth penodol i Gymru ar hyn o bryd. Mewn ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, nododd CThEF y byddai cyfrifo bwlch treth penodol i Gymru yn anodd am resymau methodolegol ac oherwydd lefel uchel yr ansicrwydd a fyddai'n gysylltiedig â dadansoddiad o'r fath.

**2.33** Mae'r ffordd y caiff dyledion treth eu rheoli gan CThEF yn effeithio ar faint o dreth incwm nas telir yn y lle cyntaf a gesglir maes o law ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Mae ffactorau allanol sy'n effeithio ar allu trethdalwyr i dalu'r dreth sy'n ddyledus ganddynt, gan gynnwys pwysau chwyddiannol presennol a chynnydd mewn costau byw, yn effeithio ar falans dyledion CThEF. Ar 31 Mawrth 2023, cyfanswm y dyledion treth ar gyfer y DU oedd £43.9 biliwn, 11.9% (£4.7 biliwn) yn fwy na'r dyledion a gofnodwyd ar 31 Mawrth 2022. Gwnaeth dyledion treth fwy na threblu yn ystod chwe mis cyntaf 2020-21 oherwydd effaith economaidd ehangach pandemig COVID-19 a phenderfyniad CThEF i atal y rhan fwyaf o'i weithgarwch casglu dyledion. Maent yn dal i fod yn fwy nag yn y pum mlynedd cyn y pandemig, pan oedd dyledion treth tua £14 biliwn ar gyfartaledd. Mae gan CThEF strategaeth newydd i leihau dyledion treth yn yr hirdymor ond roedd yn disgwyl iddynt barhau'n uchel yn ystod 2023-24. Nid yw CThEF yn llunio amcangyfrif o gyfanswm y dyledion treth incwm y gellir eu priodoli i drethdalwyr Cymreig.

**2.34** Mae CThEF wedi cymryd camau i gynyddu ei gapasiti i reoli dyledion. Cynyddodd nifer y staff yn ei swyddogaeth rheoli dyledion o 4,289 yn 2021-22 i 4,720 yn 2022-23. Yng Nghyllideb y Gwanwyn 2023, rhoddodd Trysorlys EF £47.2 miliwn ychwanegol i CThEF er mwyn gwella ei allu i reoli dyledion treth, gan gynnwys cynyddu ei gapasiti drwy asiantaethau casglu dyledion a'i gwneud yn haws i drethdalwyr wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer ad-dalu dyledion ar-lein, er enghraifft, drwy sefydlu trefniadau amser i dalu. Mae CThEF yn disgwyl i'r buddsoddiad hwn ei helpu i adennill dyledion treth ychwanegol gwerth £1.4 biliwn rhwng 2022-23 a 2027-28. Gwariodd CThEF £34.0 miliwn yn 2022-23 ar asiantaethau casglu dyledion er mwyn adennill dyledion treth, o gymharu â £20.6 miliwn yn 2021-22, ac ers mis Medi 2022 mae wedi llunio contract newydd sy'n ei alluogi i drosglwyddo mwy o ddyledion i ddwylo asiantaethau am yr un lefel o fuddsoddiad. Yn 2022-23, adenillodd asiantaethau preifat ddyledion treth gwerth £813 miliwn, o gymharu â £455 miliwn yn 2021-22. Mae CThEF yn rheoli ei gontractau ag asiantaethau casglu dyledion ar lefel y DU gyfan ac ni all ddarparu'r data hyn ar gyfer Cymru yn unig.

**2.35** Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn ar faterion treth datganoledig, rydym yn fodlon bod gan CThEF reolau a gweithdrefnau ar waith i asesu a chasglu treth incwm Cymru a'i fod yn cydymffurfio â hwy.

# Rhan Tri

## Costau

**3.1** Mae'r rhan hon yn ystyried y costau gweinyddol yr anfonebodd Cyllid a Thollau EF (CThEF) Lywodraeth Cymru amdanynt mewn perthynas â threth incwm Cymru, ac a yw'r costau hyn yn rhesymol.

**3.2** O dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r olaf ad-dalu i CThEF gostau ychwanegol net y mae wedi mynd iddynt o ganlyniad i weinyddu pwerau treth incwm Cymru.

**3.3** Mae fframwaith ategol yn nodi'r egwyddorion ar gyfer nodi costau ychwanegol net. Dim ond costau sy'n ymwneud yn benodol â gweinyddu pwerau treth incwm datganoledig Cymru y mae CThEF yn eu hailgodi ar Lywodraeth Cymru ac nid yw'n ailgodi costau gweinyddu'r system treth incwm gyffredinol yng Nghymru arni.

### Costau yr aed iddynt yn 2022-23

**3.4** Gwnaeth CThEF anfonebu Llywodraeth Cymru am £0.4 miliwn o gostau yn ymwneud â gweinyddu treth incwm Cymru yn 2022-23, sy'n cyfateb i'r swm a ailgododd CThEF yn 2021-22. Roedd yr holl wariant yn ymwneud â chostau gweithredu. Roedd y costau yr aed iddynt yn 2022-23 islaw'r gyllideb o £0.6 miliwn. Roedd rhesymau dros y tanwariant hwn yn cynnwys y ffaith bod staff CThEF wedi treulio llai o amser na'r disgwyl ar dreth incwm Cymru. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r broses ailgodi tâl yn 2022-23.

**3.5** Gwnaethom archwilio'r ffordd roedd CThEF yn amcangyfrif costau casglu a gweinyddu treth incwm Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, daethom i'r casgliad bod y swm a dalwyd gan Lywodraeth Cymru yn gywir a theg yng nghyd-destun y cytundeb rhwng CThEF a Llywodraeth Cymru.

# Atodiad Un

## Ein sail dystiolaeth

**1** Mae Adran 80HA o Ddeddf Cymru 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol baratoi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y canlynol:

- digonolrwydd unrhyw reolau a gweithdrefnau y mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi eu rhoi ar waith, o ganlyniad i ddarpariaethau cyfraddau Cymru, er mwyn sicrhau y caiff treth incwm a godir ar gyfraddau a bennir o dan y darpariaethau hynny eu hasesu a'u casglu'n briodol;
- a gydymffurfir â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn;
- cywirdeb y symiau a ddygir i gyfrif gan CThEF sy'n ymwneud â threth incwm y gellir ei phriodoli i benderfyniad ar gyfraddau i Gymru;
- cywirdeb a thegwch y symiau a ad-delir i CThEF fel treuliau gweinyddol.

**2** Er mwyn dod i'r casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â'r rheolau a'r gweithdrefnau a weithredir gan CThEF, gwnaethom ddefnyddio ein gwaith archwilio statudol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CThEF yn uniongyrchol, gan gynnwys adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar reolaethau CThEF ar gyfer asesu, casglu a dyrannu treth yn briodol o dan Adran 2 o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921. Gwnaethom hefyd gwblhau gweithdrefnau archwilio penodol dros reolaethau sy'n berthnasol i'r broses o weinyddu trethi datganoledig.

### Archwilio ariannol

**3** Gwnaethom archwilio'r data, y methodolegau, y tybiaethau a mecanwaith cyfrifo'r alldro refeniw ar gyfer 2021-22 a'r refeniw amcangyfrifedig ar gyfer 2022-23, a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Ar gyfer yr amcangyfrif, a'r alldro lle y bo'n briodol, gwnaethom gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) 540 Amcangyfrifon Cyfrifyddu Archwilio a Datgeliadau Cysylltiedig, er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n berthnasol i natur yr amcangyfrifon ac ar lefel ddigon manwl.

**4** O ran costau gweinyddu, gwnaethom seilio ein casgliad ynglŷn â chywirdeb a thegwch costau CThEF a godwyd ar Lywodraeth Cymru ar werthusiad o'r costau yn erbyn manylion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r fframwaith ategol ar gyfer costau y cytunwyd arnynt rhwng y ddau barti. Amcangyfrifodd CThEF rai o'r costau yr aed iddynt o'r data sydd ar gael ar gysylltiadau cwsmeriaid ac amser staff. Yn ystod yr archwiliad, gwelsom dystiolaeth hefyd fod y ddau barti yn trafod ac yn adolygu cyllidebau a rhagolygon costau yn rheolaidd yn ogystal â chytuno ar unrhyw symiau i'w hanfonebu a'u talu.

**5** Cafodd yr holl weithdrefnau archwilio hyn eu cynllunio, eu cyflawni a'u hadolygu yn unol â'n gweithdrefnau rheoli ansawdd mewnol ar gyfer gwaith archwilio ariannol.

**6** Cwblhawyd ein gwaith maes archwilio ariannol rhwng mis Ebrill 2023 a mis Gorffennaf 2023.

## Adolygu dogfennau

**7** Er mwyn gwerthuso'r ffordd y mae CThEF yn ymdrin â risgiau i gydymffurfiaeth, adolygwyd dogfennau cyhoeddedig ac anghyhoeddedig CThEF ynglŷn â threth incwm Cymru, gan gynnwys dogfennaeth y prosiect, dogfennaeth risg a chydymffurfiaeth, a manylion gwaith sicrwydd allweddol a wnaed gan CThEF.

**8** Cynhaliwyd ein hadolygiad rhwng mis Medi 2023 a mis Rhagfyr 2023.

## Cyfweliadau â swyddogion adrannol

**9** Cynhaliwyd dau gyfweliad â swyddogion o CThEF, a ddewiswyd i gymryd rhan oherwydd eu swydd ac am eu bod yn berthnasol i'r archwiliad. Roedd hyn yn cynnwys staff a oedd yn gyfrifol am bolisi treth datganoledig a chydymffurfiaeth â threth (neu a oedd yn ymwneud â'r meysydd hynny).

**10** Gwnaethom hefyd siarad â Llywodraeth Cymru i lywio ein hasesiad o risg a'n gwaith cynllunio ar gyfer yr adroddiad hwn.

**11** Gwnaed y gwaith maes rhwng mis Hydref 2023 a mis Tachwedd 2023. Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein. Gwnaethant bara awr ar gyfartaledd a chymerwyd nodiadau

## Dadansoddi meintiol

**12** Gwnaethom ddadansoddi data ariannol gan CThEF ar refeniw treth incwm Cymru, amcangyfrif CThEF o refeniw treth incwm Cymru a chostau gweinyddol treth incwm Cymru.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i argaffu ar Evolution Digital Satin ac mae'n cynnwys deunydd a geir o goedwigoedd cynaliadwy sy'n cael eu rheoli'n gyfrifol ac sydd wedi'u hardystio yn unol â'r FSC (Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd).

Mae'r mwydion coed yn hollol ailgylchadwy ac yn rhydd o asid. Mae gan ein hargraffwyr hefyd achrediad amgylcheddol ISO14001 llawn, sy'n sicrhau bod ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i reoli gwastraff ac arferion a all effeithio ar yr amgylchedd.

National Audit Office

Dylunio a Chynhyrchu gan Dîm Cyfathrebu NAO
DP Ref: 012127-002

£10.00
ISBN: 978-1-78604-528-7